CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
19 Mawrth 2019, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap Rhobert, D Pritchard, W Vaughan, C McGregor, A Williams, D Morgan, C Jones, D Roberts, W Williams, A Wyn, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng G D Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Morgan. Cynigodd y Cadeirydd croeso i Dani Robertson, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Cyflwynodd Dani gyflwyniad ar y Prosiect Awyr Dywyll
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cerys Jones eitem 6.1
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19.02.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mae y Cyngor Sir wedi dechrau ar y gwaith. Cytunwyd i dynnu y mater o'r agenda
4.2	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mewn llaw
4.3	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mewn llaw
4.4	**Lloches bws, Talwrn** - Nid oedd Cyng D ap Rhobert yn hapus bod y Cyngor yn gwario ar symud y lloches ond diolchodd i'r aelodau am yr eglurhad ynghylch pam ei fod yn cael ei symud
4.5	**Cyflwr y lôn wrth ymyl Bryn Gors** - Mewn llaw
4.6	**Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.7	**Horizon -** Cytunwyd i dynnu y mater o'r agenda
4.8	**Lôn tu allan i Ysgol Talwrn -** Mae'r Cyngor Sir yn dweud bod posibilrwydd o gynnwys y ffordd ar y "priority route"
4.9	**Elusen Llanffinan** - Cynigodd Cyng C McGregor cynrychioli y Cyngor ar y pwyllgor
4.10	**Porth y Dryw** - mewn llaw
4.11	**Lay By Llangwyllog** - mewn llaw
4.12	**Baw ci Talwrn** - disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.13	**Lonydd Tregaian** - mewn llaw
4.14	**Siapio Lle** - Mae Medrwn Môn wedi cynnig mynychu ein cyfarfod yn mis Mai i gwneud cyflwyniad
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Ysgol Talwrn - gweler 4.8
	Cynllunio
5.2	Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol- gofynwyd i'r aelodau pasio sylwadau i'r Clerc
	Llofnod…….Cadeirydd 16.04.19

6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Cyng Mike Parry, Pwllheli** - Darllenwyd llythyr yn dweud “Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig canoli pob darpariaeth fasgwlaidd frys yn Ysbyty Glan Clwyd. Y tro cyntaf i unrhyw ddarpariaeth frys gael ei symud o Ysbyty Gwynedd, felly mae hon yn gynsail peryglus iawn " Nid yw Cyngor Cymuned Llanddyfnan yn cefnogi'r newid.
6.2	**Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru** - Mae'r mater wedi cael ei gynnwys yn cais Horizon
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Rhent Capel Gosen £100
7.2	Rhoddion: Môn FM, Ambiwlans Awyr Cymru, Tenovus, Eisteddfod Llangollen, Urdd Môn £50 yr un
7.3	Aelodaeth Unllais Cymru £155
7.4	J A Foulkes - archwilio £75
7.5	Mole Man £175
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cyflwr yr allt ochr Moelfre - Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.2	Coed o Bodlondeb i lawr angen torri - Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Lôn Bacsia
9.2	Sedd gwag
	Llofnod…….Cadeirydd 16.04.19